Hawdd ei Ddeall

# Cymru Can

## Ein cynllun ar gyfer ein gwaith rhwng nawr a 2030



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Cymru Can'**.

**Tachwedd 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 15**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.cenedlaethaurdyfodol.cymru

**E-bost:** cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Ffôn:** 02921 677 400

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247.**

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma .......... 2**

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol .......... 4**

Beth rydyn ni eisiau ei wneud .......... 6

Ein nod .......... 7

Pam rydyn ni yn gwneud y gwaith hwn .......... 8

**Am y cynllun yma .......... 11**

Ein 5 prif nod .......... 12

**Beth nesaf .......... 14**

**Geiriau Anodd .......... 15**

# Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol




**Gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** ydy diogelu cenedlaethau'r dyfodol.



Cenedlaethau'r dyfodol ydy'r bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.



Mae'r **Comisiynydd** yn helpu cyrff cyhoeddus i feddwl am sut y bydd y penderfyniadau maen nhw yn eu gwneud nawr yn effeithio ar bobl yn y dyfodol.




Fe wnaeth swydd y Comisiynydd ddechrau ochr yn ochr â deddf i Gymru o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**.



Mae'r ddeddf yma yn dweud bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl am y dyfodol.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd i stopio:



- **Tlodi**

Tlodi ydy pan nad ydych chi yn gallu fforddio byw'n dda. A chael eich anghenion sylfaenol wedi'u diwallu.



- **Anghydraddoldeb iechyd**

Mae anghydraddoldeb iechyd yn meddwl gwahaniaeth annheg mewn iechyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl.



- **Newid hinsawdd**

Mae newid yn yr hinsawdd yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn fwy cynnes, yn fwy gwlyb, neu'n fwy sych. Mae'r newidiadau yma yn achosi i bethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt.

# Beth rydyn ni eisiau ei wneud



Rydyn ni eisiau gwneud Cymru'n lle gwell i fyw.



Rydyn ni eisiau helpu Cymru i fod yn lle gwych yn y dyfodol. Mae hyn yn meddwl:

- Rydyn ni yn gofalu am yr amgylchedd.
- Mae pobl yn hapus, yn iach ac yn gallu byw'n dda.
- Mae pawb yn cael eu cynnwys.



Rydyn ni eisiau gweithio gyda'n gilydd i amddiffyn pobl sydd heb gael eu geni eto.



Rydyn ni eisiau i lesiant a meddwl am y dyfodol fod wrth wraidd pob penderfyniad.

# Ein nod



Rydyn ni yn siarad dros bobl Cymru yn y dyfodol.



Rydyn ni yn rhoi cyngor.




Rydyn ni yn gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn dilyn **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.



Rydyn ni yn gweithio gyda'n gilydd ac yn gweithredu i roi meddwl am y dyfodol wrth wraidd popeth rydyn ni yn ei wneud.

# Pam rydyn ni yn gwneud y gwaith hwn



Er mwyn cadw’n iach, mae pobl yng Nghymru angen:

- Aer glân
- Natur
- Cymunedau cryf
- Bwyd lleol
- Mannau diogel




Rhaid i’r byd fod yn **sero net** erbyn 2050.



Mae **sero net** yn meddwl cael gwared ar yr effaith niweidiol y mae rhai nwyon yn ei gael ar yr amgylchedd. Rydyn ni yn gwneud hyn drwy:

- Lleihau faint o nwyon niweidiol rydyn ni’n eu rhyddhau.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o’r aer.



Mae'n rhaid i ni gyrraedd **sero net** i stopio **newid hinsawdd**.



Mae 1 o bob 5 plentyn yng Nghymru yn byw mewn **tlodi**.



Mae **tlodi yn** effeithio mwy ar deuluoedd â phobl anabl.




Mae **tlodi yn** effeithio'n fwy ar deuluoedd sydd â phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig.



Mae 1 o bob 6 rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o farw yn llwyr. Mae rhywogaethau'n cynnwys mathau o anifeiliaid, planhigion a bygiau. Pan fydd yr un olaf wedi marw, maen nhw wedi mynd am byth.




**Mae’n rhaid i ni wneud newidiadau nawr ac yn gyflym.**




**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol** yn meddwl gwella bywydau nawr, y flwyddyn nesaf, mewn 25 mlynedd, 50 mlynedd a 100 mlynedd i’r dyfodol.




Rydych chi’n gallu darganfod mwy am ein gwaith ar ein gwefan: www.cenedlaethaurdyfodol.cymru

# Am y cynllun yma



Mae ein cynllun o'r enw **Cymru Can** yn dweud beth fyddwn ni'n canolbwyntio arno dros y 7 mlynedd nesaf.

I ysgrifennu'r cynllun yma, rydyn ni yn:



- gweithio gyda dros 1400 o bobl a sefydliadau ar draws Cymru

- ymchwilio i beth sy'n digwydd ar draws y byd.



# Ein 5 prif nod



Ar ôl siarad â phobl ac ymchwilio, fe wnaethon ni feddwl am 5 prif nod:





**1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei defnyddio.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod hyn yn helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru.




**2. Hinsawdd a natur**

Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod holl gyrff cyhoeddus Cymru yn cyflawni eu nodau **sero net** erbyn 2023.



**3. Iechyd a llesiant**

Fe fyddwn ni yn cefnogi gwneud newidiadau i'r ffordd rydyn ni yn cadw pobl yn iach. Fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar stopio problemau yn gynnar.



**4. Diwylliant a'r Gymraeg**

Ein diwylliant ydy ein traddodiadau, ymddygiadau, hanes ac iaith sydd yn cael eu rhannu. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn deall pwysigrwydd diwylliant.



**5. Yr economi**

Yr economi ydy'r ffordd y mae pobl yn gwario arian a'r ffordd y mae pobl yn gwneud arian.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod gan Gymru economi sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf.

# Beth nesaf



Dros y 7 mlynedd nesaf fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar waith sy'n gysylltiedig â'n 5 nod.



Fe fyddwn ni hefyd yn ymchwilio i **deallusrwydd artiffisial**.

Mae **deallusrwydd artiffisial** yn creu peiriannau sydd yn gallu meddwl fel bodau dynol.



Rydyn ni eisiau edrych ar gyfleoedd a risgiau **deallusrwydd artiffisial**. Ar gyfer pobl nawr ac yn y dyfodol.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda sefydliadau a phobl sydd yn gallu ein helpu i gyflawni ein nodau.



Os ydych chi eisiau gweithio gyda ni, e-bostiwch ni yn: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru.

# Geiriau Anodd

## Anghydraddoldeb iechyd

Mae anghydraddoldeb iechyd yn meddwl gwahaniaeth annheg mewn iechyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

## Deallusrwydd artiffisial

Mae deallusrwydd artiffisial yn creu peiriannau sydd yn gallu meddwl fel bodau dynol.

## Economi

Yr economi ydy'r ffordd y mae pobl yn gwario arian a'r ffordd y mae pobl yn gwneud arian.

## Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn fyw cynnes, mwy gwlyb a mwy sych. Mae'r newidiadau yma yn achosi i bethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt waethygu.

## Sero net

Mae sero net yn meddwl cael gwared ar yr effaith niweidiol y mae rhai nwyon yn ei gael ar yr amgylchedd. Rydyn ni yn gwneud hyn drwy:

- Lleihau faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhyddhau.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.

## Tlodi

Tlodi ydy pan nad ydych chi'n gallu fforddio byw'n dda. A chael eich anghenion sylfaenol wedi'u diwallu.